



ARFOR

Creu Gwaith - Cefnogi'r Iaith

Gwerthusiad o'r Rhaglen Arfor

Crynodeb Gweithredol

Canfyddiadau allweddol

- Mae rhaglen Arfor wedi treialu cynlluniau cymorth busnes ar raddfa fach yn llwyddiannus ac wedi dangos bod ganddynt y potensial i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, i greu amodau ffafriol ar gyfer datblygu gallu a gwasanaethau ymhellach, yn ogystal â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y gymuned fusnes.
- Mae'r rhaglen hefyd wedi treialu ymyriadau cymorth busnes llai confensiynol fel mentora pobl ifanc trwy gynllun Llwyddo'n Lleol, cynllun Ffiws/Gofod Creu a oedd yn cynnig lleoedd gwaith a mynediad am ddim i offer uwch a chymorth technegydd, a thrwy gefnogi busnesau cymdeithasol i ddatblygu eu hasedau i gynyddu eu gallu a'u heffaith yn eu cymunedau trwy gynllun Cymunedau Mentrus.
- At ei gilydd, mae'r rhaglen wedi creu 238 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ac 89 o swyddi rhan-amser, wedi diogelu 226 o swyddi cyfwerth ag amser llawn pellach, wedi cefnogi 154 o fusnesau sy'n bodoli'n barod neu fusnesau newydd. Wrth sicrhau'r effaith economaidd hon, mae'r grantiau uniongyrchol hefyd wedi ymgorffori cynlluniau i ddatblygu gallu iaith yn y cynlluniau busnes ar gyfer y blynyddoedd i ddod.
- At hynny, mae'r grantiau wedi dangos nad oes angen i ffocws ar ddatblygu gallu iaith dynnu oddi ar nac effeithio'n negyddol ar y gallu i gael cymorth cyfalaf neu refferniw uniongyrchol i gefnogi a gweithredu fel catalydd ar gyfer datblygu a thwf busnes.
- Mae rhaglen Arfor hefyd wedi cynnig mewnwelediad i'r mathau o ymyriadau a fydd yn cefnogi nodau strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r iaith. Gall creu swyddi gynnig ffordd i bobl aros a gweithio yn yr ardal, er bod angen llawer o waith ac ymchwil i benderfynu pa fathau o swyddi sy'n annog siaradwyr Cymraeg i fyw yn yr ardal.
- At ei gilydd, mae'r broses o gyflwyno'r rhaglen wedi sbarduno archwiliad beirniadol o'r problemau a'r atebion posibl y mae ardal Arfor yn eu hwynebu mewn perthynas â'r economi a'r iaith. Yn yr ystyr hwn, ac mewn perthynas â'r effaith uniongyrchol y mae'r cynlluniau penodol wedi'i sicrhau, gellir ystyried bod y rhaglen yn llwyddiant.
- Yn bwysig fodd bynnag, wrth dreialu a gwerthuso ymyriadau yn unig, mae cryn botensial o hyd i brif ffrydio cynlluniau llwyddiannus, rhannu dysg, parhau i dreialu a gwerthuso a pharhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth a'r ddealltwriaeth o'r economi a'i heffaith ar yr iaith.

Crynodeb o'r gwersi allweddol a'r argymhellion

1. Mae angen deall y berthynas rhwng yr economi a'r iaith yn well - yn enwedig y syniad o 'swyddi gwell' yn yr ardal a'r potensial i effeithio ar fudo. Dylai unrhyw raglen yn y dyfodol gynnwys mwy o fuddsoddiad mewn ymchwil, monitro a gwerthuso dros gyfnod estynedig. Dylid datblygu gwell dealltwriaeth o'r rhyngweithio rhwng ffactorau economaidd a ffactorau sylfaenol a strwythurol eraill hefyd.
2. Dylid ymgymryd ag unrhyw raglen yn y dyfodol dros gyfnod hirach gyda mwy o amser yn cael ei ganiatáu ar gyfer dylunio a darparu gweithgareddau wedi hynny a'u hintegreiddio â mentrau datblygu busnes a chymorth iaith prif ffrwd.
3. Mae arloesi a threialu syniadau wedi bod yn rhan annatod o'r rhaglen hyd yma a dylent barhau i fod felly mewn unrhyw raglen yn y dyfodol, ond gyda llwybr wedi'i ddiffinio'n glir i uwchsgilio a / neu brif ffrydio gweithgareddau llwyddiannus.
4. Mae'r budd posib o integreiddio cefnogaeth ar gyfer datblygu busnes a datblygu defnydd iaith gan fusnesau i'w weld.
5. Mae'r rhaglen wedi tynnu sylw at effaith bosibl cefnogi pobl ifanc i sefydlu a datblygu mentrau, a thrwy hynny gynyddu'r tebygolrwydd o'u cadw yn eu hardaloedd lleol a dylanwadu ar eu cyfoedion, a gallai fod yn rhan allweddol o unrhyw raglen yn y dyfodol.
6. Mae cydweithredu a rhannu arfer da a dysg wedi bod yn nodweddion allweddol y rhaglen ac fe'u gwerthfawrogwyd gan yr holl bartneriaid. Dylai unrhyw raglen yn y dyfodol sicrhau digon o adnoddau i gefnogi, hwyluso a gwreiddio cydweithredu rhwng y partneriaid presennol ymhellach gyda'r bwriad o ehangu ystod y partneriaid dan sylw.

Cefndir ac amcanion

Roedd Arfor yn rhaglen a weithiodd ar draws Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion, a Sir Gaerfyrddin. Cyfeirir at y rhanbarthau hyn yn aml fel 'cadarnleoedd' yr iaith Gymraeg; gwledig, gydag awdurdodau lleol cymharol ddifreintiedig a chanran fawr o siaradwyr Cymraeg o fewn eu poblogaeth. Mae'r awdurdodau lleol yn rhannu nodweddion a heriau cyffredin yn economaidd, diwylliannol ac o ran iaith ynghyd ag awydd i weithio mewn partneriaeth mewn ymateb i'w heriau.

Nod rhaglen Arfor oedd datblygu ymyriadau economaidd, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar nifer y siaradwyr Cymraeg a hyfywedd yr iaith Gymraeg. Yn benodol, ceisiodd y rhaglen 'greu mwy o swyddi a swyddi gwell'. Roedd hyn yn adlewyrchu'r rhesymeg eang sy'n sail i'r dull gweithredu, sef gan fod pobl (ifanc yn bennaf) yn gadael yr ardal oherwydd diffyg swyddi da, byddai creu mwy o swyddi a swyddi gwell yn atal yr allfudo a'r golled gysylltiedig o siaradwyr Cymraeg o'r ardal.

Ar ei gychwyn, ac eto trwy waith a gynhaliwyd ar gyfer adroddiad interim y rhaglen, nid oedd yn bosibl adnabod cynllun gweithredol o ymyriadau penodol gyda'r hyder y byddent yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi a'r iaith. Yn ymarferol, felly, y rhaglen oedd treialu ymyriadau a dysgu gwersi yn hytrach na gweithredu newid sylweddol. Pwysleisir y pwynt olaf hwn oherwydd y canfyddiad ymhlith rhai rhanddeiliaid bod y rhaglen yn ymdrech gynhwysfawr i weithredu newid sylweddol a hyd yn oed strwythurol. Clustnodwyd cyllideb o £2m ar gyfer y cyfnod 2019–2021, gan adlewyrchu hefyd graddfa gymharol fach ac amserlen fer ar gyfer y rhaglen. Yn y bôn, byddai pob Awdurdod Lleol yn datblygu eu treialon ar raddfa fach eu hunain gyda charfannau bach o fuddiolwyr.

Yn ehangach, roedd canfyddiad ymhlith rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr adroddiadau gwerthuso interim a therfynol bod polisi'r llywodraeth yn hanesyddol wedi trin datblygiad economaidd (gwledig) a pholisi iaith fel meysydd polisi gwahanol, ac anaml y byddai'r olaf yn cael ei integreiddio i'r cyntaf. Mae Arfor yn trin datblygu gwledig mewn ffordd cwbl wahanol, lle mae adfywiad iaith wedi'i integreiddio ac yn nod allweddol ochr yn ochr â rhannu ffyniant. At hynny, mae'r dull a'r ddelfryd o osod adfywiad iaith a chynaliadwyedd fel nod penodol datblygu gwledig ac economaidd yn addas i'r agenda gwledig ehangach.

Adroddiad Interim

Datblygwyd yr Adroddiad Interim yn ystod 2020-2021 ac mae'n rhan allweddol o'r rhaglen gyffredinol a'r broses o ddysgu ac ymgysylltu â'r heriau a wynebir. Daeth i'r casgliad nad oedd strategaeth gynhwysfawr a manwl yn bosibl, oherwydd diffyg data a thystiolaeth gefnogol i adnabod ac argymhell gweithgareddau penodol. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad yn hysbysu'r ddealltwriaeth ehangach o'r maes a'r heriau yr oedd rhaglen Arfor yn ceisio mynd i'r afael â hwy.

Nododd yr adroddiad mai ychydig iawn o drafod a data a gafwyd ynghylch prosesau economaidd penodol a'u heffaith wirioneddol, boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol, ar y Gymraeg. Er bod tystiolaeth yn cefnogi'r rhagdybiaeth sydd wrth wraidd y rhaglen, sef bod ymfudo allan o'r ardal yn cael effaith sylweddol a niweidiol ar yr iaith, daeth yr adroddiad i'r casgliad bod diffyg tystiolaeth yn cefnogi'r awgrym y dylid creu mwy o swyddi a swyddi gwell a fyddai ar ei ben ei hun yn datrys y mater hwnnw.

Ar ben hynny, nododd yr adroddiad fod materion economaidd strwythurol dyfnach, fel yr economi yn gwyro tuag at sectorau sydd â gwerth sylfaenol is a rhagolygon gwannach ar gyfer twf, cyflogau is na'r cyfartaledd ac anhygyrchedd cymharol tai i bobl ifanc, yn ysgogwyr allweddol wrth wthio pobl ifanc allan o'r ardal. Yn y cyfamser, mae materion fel ansawdd bywyd, mynediad at wasanaethau ac addysg, diwylliant ceidwadol a phatriarchaidd ardaloedd gwledig ynghyd ag awydd i ehangu gorwelion a chyrchu cyfleoedd hamdden yn ffactorau pellach a phwysig i'w hystyried mewn perthynas â phobl ifanc yn allfudo.

Daeth yr adroddiad i ben gyda thri argymhelliad strategol, sef:

1. Bod Arfor yn parhau i dreialu a gwerthuso ymyriadau yn yr economi i gefnogi busnesau. Byddai'r ddysg hon yn debygol o lywio'r ddealltwriaeth ehangach o sut mae'r economi yn rhyngweithio â'r iaith ac yn effeithio arni. Byddai'r rhaglen Arfor yn cychwyn y broses hon i bob pwrpas.
2. Yn ail, cynigiodd yr adroddiad y dylid sefydlu grŵp ymchwil i ddatblygu a hyrwyddo dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng yr economi a'r iaith. Er na sefydlwyd grŵp ymchwil, cydnabuwyd ei werth posibl o fewn a thu hwnt i'r rhaglen.
3. Yn drydydd, dylai'r pedwar awdurdod lleol ystyried parhau i weithio gyda'i gilydd yn ffurfiol y tu hwnt i oes y rhaglen a dylent gytuno i brif ffrydio a hyrwyddo ymyriadau llwyddiannus ymysg ei gilydd a thu hwnt. Mae'r argymhelliad hwn yn dal i fod yn berthnasol ac yn cynrychioli ffordd o gynnal effaith a gwaddol rhaglen Arfor yn y dyfodol.

Trosolwg o weithgareddau

Cynigiodd yr holl awdurdodau lleol grantiau busnes uniongyrchol i gefnogi datblygu ac arloesi. Cynigiodd Ceredigion ddau grant, un gyda'r nod o gefnogi busnesau newydd, ac un arall wedi'i anelu at fusnesau sefydledig sydd eisiau datblygu. Cynigiodd Sir Gaerfyrddin grantiau datblygu i fusnesau yn y sectorau bwyd a diod neu'r diwydiant creadigol. Cynigiodd Ynys Môn grantiau busnes a grant iaith llai i gefnogi datblygiad busnes a gallu iaith yn unig yn y drefn honno. Cynigiodd Gwynedd grant uniongyrchol i unrhyw fusnesau. At ei gilydd, roedd y grantiau uniongyrchol i gyfrif am oddeutu dwy ran o dair o'r gwariant gweithredol.

Fodd bynnag, roedd Gwynedd ac Ynys Môn hefyd yn cynnig cynlluniau mentora a hyfforddi i bobl ifanc trwy gynllun Llwyddo'n Lleol. Roedd y cynllun yn darparu cefnogaeth datblygu busnes a mentora i bobl ifanc â syniadau busnes, ynghyd ag elfen farchnata a hyrwyddo lle byddai'r cyfranogwyr yn cyfleu eu siwrneion trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd Ffiws/Gofod Creu yn gynllun pellach a gefnogwyd gan Wynedd, a oedd yn cynnig man gwaith a mynediad am ddim i offer arbenigol a chymorth technegydd. Ceisiodd Cymunedau Mentrus, a dreialwyd hefyd gan Wynedd, gefnogi busnesau cymdeithasol a mentrau cymunedol i ddatblygu eu hasedau. Yn olaf, cynrychiolodd Bwrlwm Arfor yr ymgyrch farchnata a hyrwyddo ar gontract allanol ar gyfer y rhaglen.

Cyflwyno

Effeithiwyd yn sylweddol ar y rhaglen gan y pandemig coronafirws mewn sawl ffordd. Addaswyd y nod cyffredinol o greu swyddi i gynnwys diogelu swyddi. Roedd prosiectau unigol a deiliaid grantiau yn diwygio, yn gohirio neu, ar adegau prin, yn rhoi'r gorau i gynlluniau a gynigiwyd yn y ceisiadau. At hynny, roedd gwaith maes at ddibenion yr adroddiad gwerthuso wedi'i gyfyngu i gasglu data ar-lein ac o bell.

Yn y pen draw, fodd bynnag, cyflawnodd y rhaglen bob cynllun mewn modd a farnwyd gan fwyafrif y staff a'r buddiolwyr i fod yn llwyddiannus. Roedd brand wedi'i sefydlu a'i adnabod i ryw raddau, gan gynnig platfform sy'n galluogi i'r awdurdodau lleol adeiladu ar effaith ac enw da'r rhaglen gyfredol, ac ymateb i'r trydydd o argymhellion yr adroddiad interim. Mae'r lansiad cymharol 'gynnil', absenoldeb ymgyrch hyrwyddo sylweddol, a'r lefelau cyson uchel o ddiddordeb yn y grantiau busnes yn benodol, yn awgrymu y dylid disgwyl i unrhyw raglen olynol debyg ddenu lefel debyg o ddiddordeb. Roedd y rhaglenni ehangach, yn enwedig Llwyddo'n Lleol a Chymunedau Mentrus, yn boblogaidd, gyda'r meini prawf ar gyfer y cyntaf wedi'u culhau ar gyfer yr ail alwad er mwyn canolbwyntio'r gefnogaeth ar fyfyrwyr Prifysgol a oedd yn aros adref oherwydd cyfyngiadau'r clo.

Fodd bynnag, teimlwyd yn eang bod yr amserlenni tynn ar gyfer cynllunio a chyflwyno'r rhaglen a'r cynlluniau yn cyfyngu ar i ba raddau y gellid cynnig dulliau ac ymyriadau arloesol. O ganlyniad, roedd grantiau uniongyrchol i fusnesau yn cynrychioli'r ffordd sicraf fwyaf effeithlon a thebygol o wario'r gyllideb.

Effaith

Mae'r rhaglen wedi cael yr effaith fwyaf gweladwy ac uniongyrchol trwy grantiau busnes uniongyrchol i gwmnïau bach a meicro yn yr ardal. Nododd y busnesau hyn yn aml pa mor anodd oedd cyrchu ffynonellau cyllid, buddsoddiad a chyfalaf amgen. Yn yr ystyr hwn, mae'r grantiau wedi bod yn arbennig o werthfawr i'r busnesau hyn ac wedi galluogi ehangu ac arallgyfeirio. Yn eu tro, mae'r busnesau hyn wedi creu 238 o swyddi amser llawn ac 89 rhan amser ac wedi diogelu 226 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, refeniw cynyddol, a chyd'r rhain yn gwmnïau lleol, maent yn fwy tebygol o ailgylchu'r refeniw yn lleol.


Yn benodol, mae'r gefnogaeth wedi galluogi datblygu gwasanaethau a chynhyrchion newydd neu ffyrdd newydd o weithio trwy ddarparu cyllid cyfalaf neu refeniw i gyfateb a lluosu effaith buddsoddiad busnes. Nododd busnesau yn gyson y byddai datblygiadau o'r fath wedi bod yn arbennig o anodd eu sicrhau heb grant Arfor oherwydd yr heriau roeddent yn eu hwynebu wrth gael gafael ar gyllid a buddsoddiad er mwyn ariannu datblygiadau allweddol. Teimlwyd yn eang bod hyn yn arbennig o berthnasol i berchnogion busnesau iau (potensial) y credwyd eu bod yn wynebu heriau ychwanegol wrth gael gafael ar gyllid a buddsoddiad ar gyfer eu busnesau oherwydd diffyg hanes credyd neu gyfalaf. O ganlyniad, roedd y grantiau hyn yn llenwi gwagle penodol ac, gellir dadlau, yn osgoi methiant yn y farchnad.



Trwy wreiddio datblygiad gwasanaethau a gallu iaith mewn busnesau, yn bennaf trwy sgorio hael ar gyfer cynlluniau datblygu iaith mewn ffurflenni cais, mae'r grantiau uniongyrchol wedi datgelu ffyrdd i gefnogi'r iaith trwy ymyriadau economaidd. Trwy ymgorffori datblygiad iaith mewn cynllunio busnes, mae'r grantiau wedi sicrhau ymgysylltiad mwy sylweddol â'r agenda, yn ogystal â gyda gwasanaethau cymorth ehangach y llywodraeth fel Helo Blod. Yn y pen draw, mae hyn yn arwain at wasanaethau a chynhyrchion Cymraeg mwy hygyrch yn ogystal â'r iaith yn dod yn fwy gweladwy ymhlith busnesau. Nid yw hyn o reidrwydd yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardal, ond mae'n cefnogi cymunedau ac unigolion i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.



Yn y cyfamser, mae cynlluniau fel Llwyddo'n Lleol, ochr yn ochr â chefnogi busnesau eginol sy'n cael eu rhedeg gan bobl ifanc, wedi dangos ffyrdd y gellir creu a hyrwyddo naratif ynghylch cychwyn busnesau a byw yn yr ardal. Mae effaith tymor hwy'r naratif hwn, un sy'n gwrthbwysu'r stori sefydledig o beidio â chael cyfleoedd na swyddi i bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru, i'w fesur o hyd.



Yn olaf, roedd cynllun Cymunedau Mentrus yn wahanol i'r gefnogaeth uniongyrchol-i-fusnes arall a oedd ar gael. Yn hytrach, ceisiodd y cynllun gefnogi a helpu i ehangu gallu "cyngreiriaid" allweddol wrth geisio cyflawni nodau tebyg. Yn benodol, roedd y cynllun yn cefnogi busnesau cymdeithasol sy'n ceisio creu cyflogaeth i bobl leol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r dull hwn yn wahanol i'r cynlluniau eraill gan fod yr effaith yn gwbl eilradd ac yn tynnu ar allu a rôl ac effaith y busnesau mewn cymunedau.



Yn fwy cyffredinol, mae'r data'n awgrymu ei bod yn bosibl cefnogi datblygiad busnes ac arloesedd ochr yn ochr â chefnogi datblygiad gallu Cymraeg. Nid yw'r olaf yn cyfyngu ar y cyntaf rhag creu a chefnogi swyddi ac arloesedd o fewn cwmnïau ar draws ystod o sectorau. At hynny, nid yw'r cyntaf yn cyfyngu ar yr olaf, a gellir cefnogi ac annog busnesau i ddatblygu eu gallu Cymraeg ochr yn ochr â datblygu busnes ehangach, ac y gellir prif ffrydio a sefydlu datblygiad iaith yn natblygiad busnes.

Gwersi o'r model a'r cyflwyno

Fe wnaeth y profiad a'r model cyflwyno hefyd gynhyrchu dysg werthfawr a gwersi allweddol. Chwaraeodd yr adroddiad interim a thrafodaethau a gweithdai cysylltiedig â rhanddeiliaid a staff rheoli ran werthfawr wrth ysgogi trafodaethau a datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon. Yn hanfodol, mireiniodd y rhaglen a'i staff eu dealltwriaeth o sut y gellid mynd i'r afael â mater dirywiad iaith a mewnfudo siaradwyr Cymraeg. Er bod creu swyddi yn bwysig ac yn werthfawr, mae'r her graidd yn debygol o fod yn gysylltiedig nid â nifer y swyddi ond â'r math o swyddi sydd ar gael i bobl ifanc. Yn yr ystyr hwn, gellid gwneud mwy i ddeall y berthynas rhwng creu swyddi a'r bobl 'iawn' yn cymryd y swyddi, neu i ddeall pa rai oedd y "swyddi iawn" i ddenu pobl ifanc, leol a Chymraeg eu hiaith i fyw a gweithio yn yr ardal. Ar ben hynny, efallai na fydd creu cyfleoedd gwaith, ar ei ben ei hun, yn ddigon. Gallai hyd yn oed fod yn wrthgynhyrchiol wrth ystyried y dadansoddiadau ehangach a gynhelir ar gyfer yr adroddiad interim.

Mae'r her hefyd yn debygol o fod yn gysylltiedig â materion ehangach sy'n ymwneud ag ansawdd bywyd ac uchelgeisiau pobl ifanc. Yn ddelfrydol, dylai dulliau economi>iaith fod yn rhan o strategaeth ehangach i fynd i'r afael â'r naratif negyddol ynghylch byw a gweithio'n lleol a'r ffactorau strwythurol sy'n bygwth cynaliadwyedd yr iaith.

Mae'r rhaglen hefyd wedi datgelu clymblaid o "gynghreiriaid" sydd, neu a allai fod wedi cael eu tynnu a'u hudo trwy gyllid uniongyrchol. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod rhwydwaith o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb mewn dilyn y diben cyffredin o ddatblygu ymyriadau economaidd sydd o fudd i'r iaith. Yn bwysig, gallai ymdrechion ehangach yn y dyfodol i ymgysylltu â chynaliadwyedd iaith wneud mwy o ddefnydd o'r "cynghreiriaid" ehangach hyn a'r cyfalaf cymdeithasol sydd i'w gael o fewn rhwydweithiau cynghreiriaid o'r fath.

Cau

Mae'r rhaglen, er gwaethaf yr oedi a'r anawsterau a achoswyd gan bandemig COVID-19, felly wedi llwyddo i gefnogi cynlluniau peilot i hyrwyddo datblygiad economaidd a chynhyrchu budd i'r Gymraeg. Mae wedi llwyddo i adnabod ffyrdd y gall ymyriadau economaidd gefnogi cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg mewn ardaloedd gwledig. Mae'r her ddi-oed o sicrhau bod y ddysg a'r arfer da yn cael eu rhannu, eu dysgu a'u mabwysiadu yn parhau ar gyfer yr Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan.

Yn y pen draw, fodd bynnag, cronfa beilot neu arddangoswr oedd rhaglen Arfor. Felly, o ystyried ei graddfa, mae'n annhebygol y bydd yr effaith uniongyrchol yn sylweddol y tu hwnt i'r busnesau neu'r cymunedau unigol a gefnogir. Er mwyn i'r rhaglen gael effaith sylweddol a gwaddol adeiladol, rhaid rhannu'r ddysg a rhaid prif ffrydio cynlluniau. Serch hynny, mae strwythur Arfor, sy'n cynnwys cydweithredu rhwng staff y pedwar awdurdod lleol, yn ffordd effeithiol o gyflawni'r ddwy dasg hyn. Dylai'r awdurdodau lleol felly geisio cyfleoedd i barhau i gydweithredu, i rannu arfer da yn fewnol a'i hyrwyddo'n allanol, i brif ffrydio cynlluniau effeithiol ac i adnabod cyfleoedd i ariannu a gwerthuso peilotiaid pellach.

Crynodeb o Wersi'r Adroddiad

GWERS 1: Mae'r staff rheoli a'r rhanddeiliaid wedi datblygu eu ffordd o feddwl mewn perthynas â chysniad allweddol Arfor, sef y syniad o "swydd well" yn yr ardal, ar ôl y pandemig. Dylai'r staff a'r rhanddeiliaid anelu at barhau i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r hyn yw "swydd well"; bydd hyn yn hysbysu unrhyw ymdrechion yn y dyfodol i ddatblygu rhaglenni creu swyddi neu ymyriadau economaidd sy'n cael effaith fuddiol ar yr iaith. Dylai "swydd dda" hefyd ymwneud ag effaith gymdeithasol ac iaith y swydd sy'n cael ei chreu.

GWERS 2: Yn strategol, dylid cyfyngu ar ddisgwyliadau pa effaith y gall rhaglen creu swyddi ei chael ar fudo (i mewn ac allan), ac yn sgil hynny yr iaith. Yn ddelfrydol, dylai dulliau economi>iaith fod yn rhan o strategaeth ehangach i fynd i'r afael â'r ffactorau gwaelodol a strwythurol sy'n bygwth cynaliadwyedd yr iaith.

GWERS 3: Argymhellir bod proffil oedran unigolion sy'n elwa o greu swyddi yn cael ei gasglu wrth fonitro data yn y dyfodol. Byddai hyn yn galluogi i'r rheolwyr gael cipolwg ar y mathau o ymyriadau a swyddi sy'n annog pobl ifanc i aros yn yr ardal

GWERS 4: Dylai'r staff rheoli geisio ymgysylltu â Helo Blod Busnes Cymru a gwasanaethau cymorth busnes Comisiynydd y Gymraeg gyda'r nod o rannu eu profiadau a'u harfer da a ddatblygwyd wrth gyflawni'r rhaglen hon.

GWERS 5: Os ystyrir estyniad neu barhad, dylid ystyried rôl cyfalaf cymdeithasol a gwerth ychwanegol clymblaid ehangach o bartneriaid cyflenwi a chynghreiriaid wrth ddatblygu'r model dylunio a chyflwyno. Dylai'r dyluniad geisio cyfalafu a chynyddu'r effaith y gall y cyfalaf cymdeithasol ei chael i'r eithaf.

GWERS 6: Roedd angen mwy o adnoddau i reoli a chyflawni'r rhaglen nag a ragwelwyd. Os caiff ei estyn neu ei barhau, dylai'r rhaglen roi cyfrif am faich gweinyddol gweinyddu'r grantiau.

GWERS 7: Os ystyrir estyniad neu barhad, dylid cynnwys sefydliadau sy'n ganolbwyntiau mewn sectorau fel Yr Egin neu Ganolfan Bwyd Cymru yn ogystal â'r Prifysgolion niferus yn yr ardal fel partneriaid cyflwyno posib.

GWERS 8: Os ystyrir estyniad neu barhad, dylai'r rheolwyr a'r cyllidwyr ystyried caniatáu mwy o amser i ddylunio a datblygu cynlluniau. Dylai hyn alluogi staff i fynd at randdeiliaid allweddol a phartneriaid cyflwyno posibl i ychwanegu gwerth at y gefnogaeth yn ogystal â thynnu rhwydwaith ehangach o gyfranogwyr i'r maes o ddatblygu ymyriadau economaidd sydd o fudd i'r iaith.

GWERS 9: Dylai rheolwyr y rhaglen a'r pedwar Awdurdod Lleol geisio cadw mewn cysylltiad â busnesau a buddiolwyr y rhaglen. Dylai'r rheolwyr anelu at barhau i fonitro'r effaith y mae'r gefnogaeth wedi'i chael yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

GWERS 10: Wrth geisio rhannu arfer da a dysg, a hyrwyddo prif ffrydio gweithgareddau llwyddiannus, dylai'r pedwar ALI barhau i gydweithredu i'r dyfodol p'un a oes rhaglen Arfor ffurfiol yn bodoli ai peidio. Mae strwythur Arfor yn cyflwyno cyfleoedd i gynnal cydweithredu; ar gyfer rhannu arfer da a dysg yn fewnol; adnabod cyfleoedd ar gyfer prif ffrydio; adnabod cyfleoedd cyllido ar gyfer treialu pellach; ac ar gyfer hyrwyddo dysg a gwybodaeth yn allanol i ddylanwadu ar strwythurau llywodraethu economaidd ehangach.

Cynhaliwyd y gwerthusiad gan [Wavehill: ymchwil gymdeithasol ac economaidd](#)

Awdur: Dyfan Powel

Dyddiad: Hydref 2021

